Wales Migration Partnership

Enabling a rights based approach to the inclusion of asylum seekers, refugees and migrants in Wales

Partneriaeth Mewnfudo Cymru

Yn galluogi dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau o gynnwys ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mewnfudwyr yng Nghymru

PRESS RELEASE;

Embargoed until: Midnight 28 January 2014

New briefings offer fresh insight into immigration in Wales

The Wales Migration Partnership (WMP) has today launched the first in a series of briefing papers on migration in Wales.

Written by Professor Heaven Crawley, the briefings offer up-to-date summaries of the evidence base that is available on migration in Wales, while also tackling the myths that can surround asylum seeker, refugee and migrant communities.

The first papers in the series set out the existing data and research evidence on '*Asylum Seekers and Refugees in Wales' 'International Migrants in Wales'* and also *'Employment and Migration in Wales'.*

Commenting on the briefing paper series, Anne Hubbard, Director for the Wales Migration Partnership said:

"The central aim of the Wales Migration Partnership is to improve knowledge and understanding of migration in Wales. While relatively little work has been published to date on this issue, these papers aim to fill this gap and provide a sound basis on which to discuss and debate the impacts of migration in Wales."

Professor Heaven Crawley, Director of the Centre for Migration Policy Research (CMPR) at Swansea University added:

"The scale and nature of migration to Wales has changed considerably over the past decade but there is a lack of up to date information and research about the numbers of people arriving, their backgrounds and experiences, and about the implications for

local services and community relations. Much of the current debate on the impact of migration to Wales is underpinned by assumption rather than fact"

This series of briefing papers aims to provide a clear and factual overview of the available research evidence regarding the profile, circumstances and needs of asylum seekers, refugees and international migrants living in Wales, as well as the implications for housing, health, education, employment and community relations. It is hoped the presentation of such facts will help improve people's knowledge and understanding of the positive impacts these communities can and are already having in Wales."

Key points from each of the research papers are:

Migration and Employment;

- Around 22,300 migrants from central and Eastern Europe joined the Welsh labour market between May 2004 and March 2008. Over half of all migrant workers from central and Eastern Europe are living in Carmarthenshire, Cardiff, Newport and Wrexham.
- Since 2005 the percentage of migrant workers in the Welsh labour force doubled to 9.2%, around 82,600 employees. The main countries of origin are Asia and Oceania (2.8%), Western Europe (2.4%) and the A8 accession countries that joined the EU in 2004; Poland, India, Germany, Ireland, the Philippines, South Africa and the United States.
- Although there is a widespread belief that migration leads to higher unemployment and lower wages, there is little or no evidence to support this assertion. On the contrary recent high levels of inward migration have, on balance, been a significant advantage for the UK economy.
- There is evidence that migration overall represents a sizeable economic boost for Wales
- Migrant workers in Wales experience problems in relation to unscrupulous employers, lack of English and Welsh language skills and in some cases ill-adjusted services.

International Migration:

- Although there has been international migration to Wales for centuries, there has only been a net inflow of international migrants to Wales since 1994
- On average there has been a net inflow of international migrants of around 2,400 per year since 1994 but this figure significantly increased from May 2004 when eight central and eastern European (A8) countries joined the EU and their citizens acquired the right to work in the UK

- The largest group of people born outside the UK living in Wales is from Poland.
- The economic downturn since 2008 has been associated with significant changes in patterns of international migration to Wales. From 2008 onwards the number of international migrants leaving Wales increased.
- Research and economic analysis shows that, overall, A8 migrants coming the UK after 2004 made a net fiscal contribution to the UK with no negative impact on the UK welfare system. Overall there have been no negative effects on the Welsh labour market
- There is considerable political and policy debate about the number of migrants expected from the A2 countries – Romania and Bulgaria –from 31st December 2013. The scale and impact of migration from Bulgaria and Romania is difficult to accurately predict.
- International students in Wales add £237m to the nation's gross domestic product and more than 9,000 jobs

Asylum seekers and refugees in Wales:

- There were 1,571 asylum seekers living in Wales in the first quarter of 2013. This number has fallen from a peak of 2,616 in the first quarter of 2007.
- In Wales, as elsewhere, asylum seekers and refugees experiences particular difficulties in accessing appropriate accommodation with examples of poor practice among housing providers and front line staff which can make people feel vulnerable and insecure in their own homes.
- Although asylum seekers and refugees are legally entitled to access primary and secondary healthcare in Wales, there is evidence of inadequate access due to social, cultural and structural barriers
- Many refugees living in Wales are more highly qualified than their British counterparts. More than a quarter have a University degree from their country of origin and a further 8.9% hold a postgraduate qualification.
- Refugees are entitled to work but often experience high levels of under- and unemployment despite arriving with good qualifications and previous work experience in their countries of origin.
- Barriers to employment include a lack of language and/or computer skills, difficulties in applying for jobs and attending interviews, a lack of recognition of overseas qualifications, difficulties in finding job vacancies, a lack of references and racism and discrimination on the part of employers.
- There are significant pockets of negative attitudes and prejudice towards asylum seekers and refugees living in Wales.

NOTES

An **asylum seeker** is a person who has come to the UK to exercise his or her right to claim asylum under the 1951 Convention relating to the Status of Refugees and is waiting for a decision about whether or not they will be granted refugee status.

A **refugee** is a person who has been recognised by the UK government as needing protection under the 1951 Convention and has been granted leave to remain in the UK, initially for a period of five years although this may be extended indefinitely.

An **international migrant** is defined as someone who has or intends to change his or her country of usual residence for a period of at least a year (Welsh Government 2013). Tourists and other visitors who come to Wales for less than one year are not recorded as international migrants. In Wales and the rest of the UK the term **'international migrant'** is often used to refer specifically to Eastern European citizens due to the significant in increase in the number of people from these countries - particularly Poland and Slovakia – who have come to Wales to live and work since 2004.

In 2001 the UK government introduced a policy of dispersing asylum seekers to different parts of the country whilst they wait for a decision on their claim for international protection. As a result there has been an increase in the number of asylum seekers and refugees living in Wales although overall numbers remain small. There were 1,571 asylum seekers living in Wales in the first quarter of 2013. This number has fallen from a peak of 2,616 in the first quarter of 2007. The number of refugees is unknown but has been estimated at between 6,000 and 10,000. Most are living in **Cardiff, Wrexham, Swansea and Newport**.

Although powers relating to asylum and immigration are not devolved, the Welsh Government has responsibility to migrants living in Wales under its housing, health, education and social service functions and through its community cohesion agenda. As a result the Welsh Government is a key player in relation to the inclusion of migrants in Welsh society.

The **Wales Migration Partnership** (WMP) is funded by Welsh Government and the Home Office and is based at the Welsh Local Government Association. The WMP provides a strategic leadership and an independent, advisory and consultative body on migration in Wales. The partnership allows sharing of expertise, diverse range of

views and vital information minimising adverse impacts and maximising the benefits of migration.

The briefing papers can be can be downloaded at **www.wmp.org.uk.**
Additional data and resources can be downloaded from the Wales Migration Portal http://wmp.infobasecymru.net/IAS

For press enquiries/interviews please contact;

WMP Chair, Rev. Aled Edwards OBE, 07751 446071

Professor Heaven Crawley, 07813 127121

Anne Hubbard; Director, WMP 07950 954925

Wales Migration Partnership
Enabling a rights based approach to the inclusion of asylum seekers, refugees and migrants in Wales

Partneriaeth Mewnfudo Cymru
Yn galluogi dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau o gynnwys ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mewnfudwyr yng Nghymru

DATGANIAD I'R WASG;

Embargo hyd: Canol nos 28 Lonawr 2014

Cyfarwyddiadau newydd yn cynnig golwg ar fewnfudo yng Nghymru

Mae Partneriaeth Mewnfudo Cymru (WMP) wedi lansio heddiw y cyntaf mewn cyfres o bapurau briffio ar fewnfudo yng Nghymru.

Wedi eu hysgrifennu gan yr Athro Heaven Crawley, mae'r cyfarwyddiadau'n cynnig crynodebau diweddaraf ar sail tystiolaeth sydd ar gael ynghylch mewnfudo yng Nghymru, tra maen nhw hefyd yn mynd i'r afael â'r myth sy'n gallu amgylchynu cymunedau o geiswyr lloches, ffoaduriaid a mewnfudwyr.

Mae'r papurau cyntaf yn y gyfres yn nodi'r data a'r dystiolaeth ymchwil sydd eisoes ar gael ynghylch *'Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid yng Nghymru', 'Ymfudwyr Rhyngwladol yng Nghymru'* a hefyd *'Cyflogaeth ac Ymfudo yng Nghymru'.*

Wrth wneud sylw ar y gyfres o bapurau briffio, dywedodd Anne Hubbard, Cyfarwyddwr Partneriaeth Mewnfudo Cymru:

"Nod canolog Partneriaeth Mewnfudo Cymru yw gwella gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch mewnfudo yng Nghymru. Oherwydd mai dim ond cymharol ychydig o waith sydd wedi ei gyhoeddi hyd yn hyn ar y mater, mae'r papurau hyn yn amcanu i lenwi bwlch a darparu sail gadarn y gellir trafod a dadlau effaith mewnfudo yng Nghymru arni."

Ychwanegodd yr Athro Heaven Crawley, Cyfarwyddwr Canolfan Ymchwil ar Bolisi Mewnfudo ym Mhrifysgol Abertawe:

"Mae graddfa a natur mewnfudo i Gymru wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf, ond mae diffyg gwybodaeth ac ymchwil gyffredinol ynghylch y niferoedd o bobl sy'n cyrraedd, am eu cefndiroedd a'u profiadau, ac ynghylch y goblygiadau yn

achos gwasanaethau lleol a chysylltiadau cymunedol. Mae llawer o'r ddadl gyfredol ynghylch effaith mewnfudo i Gymru'n cael ei thanategu gan ragdybiaethau yn hytrach na ffeithiau."

Nod y gyfres hon o bapurau briffio yw darparu trosolwg clir a ffeithiol o'r dystiolaeth ymchwil sydd ar gael yn ymwneud â phroffil, amgylchiadau ac anghenion y ceiswyr lloches, y ffoaduriaid a'r ymfudwyr rhyngwladol sy'n byw yng Nghymru, yn ogystal â goblygiadau ar gyfer tai, iechyd, addysg, gwaith a chysylltiadau cymunedol. Gobeithir y bydd cyflwyno ffeithiau o'r fath yn helpu i wella gwybodaeth a dealltwriaeth pobl o'r effeithiau cadarnhaol y mae'r cymunedau hyn yn gallu eu cael, ac sydd eisoes yn eu cael, yng Nghymru."

Dyma'r pwyntiau allweddol o bob un o'r papurau ymchwil:

Mewnfudo a Chyflogaeth;

- Ymunodd tua 22,300 o fewnfudwyr o ganolbarth a Dwyrain Ewrop y farchnad lafur Gymreig rhwng mis Mai 2004 a mis Mawrth 2008. Mae dros hanner yr holl weithwyr ymfudol o ganolbarth a Dwyrain Ewrop yn byw yn Sir Gaerfyrddin, Caerdydd, Casnewydd a Wrecsam.
- Ers 2005, fe ddyblodd y ganran o weithwyr ymfudol yn y gweithlu Cymreig i 9.2%, tua 82,600 o weithwyr. Eu prif wledydd genedigol yw Asia ac Ynysoedd y De (2.8%), Gorllewin Ewrop (2.4%) a gwledydd yr A8 a ymunodd â'r Undeb Ewropeaidd yn 2004; Gwlad Pwyl, India, yr Almaen, Iwerddon, Ynysoedd y Philipinau, De Affrica ac Unol Daleithiau America.
- Er y credir yn gyffredinol bod mewnfudo'n arwain at gynnydd mewn diweithdra a chyflogau is, does prin ddim tystiolaeth i ategu'r honiad hwn. I'r gwrthwyneb, mae lefelau uchel diweddar o fewnfudo i'r wlad, mewn cydbwysedd, wedi bod o fantais sylweddol i economi'r D.U.
- Mae tystiolaeth bod mewnfudo yn gyffredinol yn cynrychioli hwb economaidd gweddol fawr i Gymru.
- Mae gweithwyr ymfudol yng Nghymru yn profi problemau mewn perthynas â chyflogwyr diegwyddor, diffyg sgiliau iaith Saesneg a Chymraeg, ac mewn rhai achosion, gwasanaethau anghyfaddas.

Ymfudiad Rhyngwladol:

- Er bod mewnfudo rhyngwladol wedi digwydd yng Nghymru ers canrifoedd, dim ond ers 1994 mae llif net o ymfudwyr rhyngwladol i Gymru wedi bod
- Ar gyfartaledd mae llif net o ymfudwyr rhyngwladol o tua 2,400 y flwyddyn wedi bod ers 1994, ond fe gynyddodd y nifer hwn yn arwyddocaol o fis Mai 2004, wedi i'r wyth gwlad (A8) o ganol a dwyrain Ewrop ymuno â'r Undeb Ewropeaidd a'u dinasyddion yn cael yr hawl i weithio yn y D.U.

- Daw'r grŵp mwyaf o bobl sydd wedi eu geni y tu allan i Gymru, ac sy'n byw yng Nghymru, o Wlad Pwyl.
- Mae'r dirywiad economaidd ers 2008 wedi ei gysylltu â newidiadau sylweddol ym mhatrymau ymfudiad rhyngwladol i Gymru. O'r flwyddyn 2008 ymlaen fe gynyddodd y nifer o ymfudwyr rhyngwladol a oedd yn gadael Cymru.
- Mae ymchwil a dadansoddiad economaidd yn dangos bod mewnfudwyr A8 a ddaeth i'r D.U. ar ôl 2004, yn gyffredinol, wedi gwneud cyfraniad cyllidol net i'r D.U. gyda dim traweffaith negyddol ar system les y D.U. Yn gyffredinol does dim effeithiau negyddol wedi bod ar y farchnad lafur Gymreig
- Mae cryn ddadl wleidyddol a dadl ynghylch polisi ynglŷn â'r nifer o fewnfudwyr a ddisgwylir o'r gwledydd A2 – Rwmania a Bwlgaria – wedi 31 Rhagfyr 2013. Mae'n anodd rhagweld yn fanwl gywir beth fydd graddfa ac effaith y mewnfudo o Bwlgaria a Rwmania
- Mae myfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru yn ychwanegu £237m at gynnyrch mewnwladol crynswth y genedl, a mwy na 9,000 o swyddi.

Ceiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru:

- Roedd 1,571 o geiswyr lloches yn byw yng Nghymru yn chwarter cyntaf 2013. Mae'r nifer hwn wedi cwympo o'i anterth o 2,616 yn chwarter cyntaf 2007.
- Yng Nghymru, fel mewn llefydd eraill, mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn profi anawsterau wrth geisio cael mynediad i lety priodol, gydag enghreifftiau o arfer gwael ymhlith darparwyr tai a staff llinell flaen, sy'n gallu gwneud i bobl deimlo'n fregus ac anniogel yn eu cartrefi eu hunain.
- Er bod ceiswyr lloches a ffoaduriaid â hawl gyfreithiol i gael gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd yng Nghymru, mae tystiolaeth o fynediad annigonol oherwydd rhwystrau cymdeithasol, diwylliannol a strwythurol.
- Mae llawer o'r ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru â chymwysterau uwch na'u cymheiriaid Prydeinig. Mae mwy na chwarter wedi ennill gradd Prifysgol o'u gwlad enedigol, ac mae 8.9% ymhellach yn dal cymhwyster ôl-radd.
- Mae hawl gan ffoaduriaid i weithio, ond yn aml maen nhw'n profi lefelau uchel o ddiffyg cyflogaeth a diweithdra er gwaetha'r ffaith iddyn nhw gyrraedd gyda chymwysterau da a phrofiad gwaith blaenorol yn eu gwledydd genedigol.
- Mae'r pethau sy'n eu rhwystro rhag cael gwaith yn cynnwys diffyg sgiliau iaith a/neu sgiliau cyfrifiadurol, anhawster wrth ymgeisio am swyddi a mynychu cyfweliadau, diffyg cydnabyddiaeth o gymwysterau tramor, anawsterau wrth ddod i wybod am swyddi gwag, diffyg tystlythyrau, ac elfennau o hiliaeth a gwahaniaethu yn achos y cyflogwyr.
- Mae pocedi arwyddocaol o agweddau negyddol a rhagfarnau tuag at geiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru.

NODIADAU

Ceisiwr lloches yw rhywun sydd wedi dod i'r D.U. er mwyn ymarfer ei hawl i geisio lloches, yn unol â Chonfensiwn 1951 mewn perthynas â Statws Ffoaduriaid, ac sy'n

aros am benderfyniad ynghylch a yw statws ffoadur yn mynd i gael ei ganiatáu iddo ef neu hi ai peidio.

Ffoadur yw rhywun sydd wedi cael ei gydnabod gan lywodraeth y D.U. fel un sydd angen amddiffyniad yn unol â Chonfensiwn 1951, ac sydd wedi derbyn caniatâd i aros yn y D.U. am gyfnod o bum mlynedd i ddechrau, er ei bod yn bosibl i'r cyfnod gael ei ymestyn yn amhenodol.

Caiff **ymfudwr rhyngwladol** ei ddiffinio fel rhywun sydd wedi, neu sy'n bwriadu, gadael y wlad y mae ef neu hi yn byw ynddi fel arfer am gyfnod o flwyddyn o leiaf (Llywodraeth Cymru 2013). Ni chaiff twristiaid neu ymwelwyr eraill sy'n dod i fyw yng Nghymru am lai na blwyddyn eu cofnodi fel ymfudwyr rhyngwladol. Yng Nghymru, ac yng ngweddill y D.U. mae'r term **'ymfudwyr rhyngwladol'** yn aml yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio'n benodol at ddinasyddion o Ddwyrain Ewrop oherwydd y cynnydd sylweddol yn y nifer o bobl o'r gwledydd hyn - yn enwedig Gwlad Pwyl a Slofacia - sydd wedi dod i Gymru i fyw ac i weithio ers 2004.

Yn 2001, cyflwynodd llywodraeth y D.U. bolisi o wasgaru ceiswyr lloches i wahanol rannau o'r wlad tra maen nhw'n aros am benderfyniad ar eu cais am amddiffyniad rhyngwladol. O ganlyniad, mae cynnydd wedi bod yn y niferoedd o geiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru, er mae'r nifer cyffredinol yn parhau'n fychan. Roedd 1,571 o geiswyr lloches yn byw yng Nghymru yn chwarter cyntaf 2013. Mae'r nifer hwn wedi disgyn o uchafbwynt o 2,616 yn chwarter cyntaf 2007. Nid yw niferoedd y ffoaduriaid yn wybyddus ond amcangyfrifir eu bod rhwng 6,000 a 10,000. Mae'r rhan fwyaf yn byw yng **Nghaerdydd, Wrecsam, Abertawe a Chasnewydd**.

Er nad yw'r pwerau o ran noddfa a mewnfudiad wedi eu datblygu, mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb tuag at ymfudwyr sy'n byw yng Nghymru dan ei swyddogaethau tai, iechyd, addysg a gwasanaeth cymdeithasol a thrwy ei hagenda ar gydlyniant cymunedol. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru'n chwarae rhan allweddol mewn perthynas â chynhwysiant mewnfudwyr yn y gymdeithas Gymreig.

Caiff **Partneriaeth Mewnfudo Cymru** (WMP) ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref, ac mae'n rhan o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r

bartneriaeth yn darparu arweinyddiaeth strategol a chorff ymgynghorol annibynnol ar fewnfudo yng Nghymru. Mae'r bartneriaeth yn caniatáu rhannu arbenigedd, amrywiaeth o safbwyntiau, a gwybodaeth hanfodol, gan leihau cymaint â phosib ar effaith anffafriol a gwneud y mwyaf o fuddiannau mewnfudo.

Mae'n bosib llwytho'r papurau brifio i lawr oddi ar **www.wmp.org.uk.**
Ac mae'n bosib llwytho data ac adnoddau ychwanegol i lawr oddi ar Borth Mewnfudo Cymru ar http://wmp.infobasecymru.net/IAS

Ar gyfer ymholiadau'r wasg/cyfweliadau, cysylltwch â:

Chadeirydd Partneriaeth Mewnfudo Cymru, Y Parch. Aled Edwards OBE, 07751 446071

Yr Athro Heaven Crawley, 07813 127121

Anne Hubbard; Cyfarwyddwr Partneriaeth Mewnfudo Cymru 07950 954925